# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 9 Chwefror 2016

Amser: 09.02 - 10.57

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3345

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Darren Millar AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Jocelyn Davies AC<br>Mike Hedges AC<br>Sandy Mewies AC<br>Julie Morgan AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Aled Roberts AC |
| Tystion: | Simon Jones, Holdco |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Buckle (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Matthew Mortlock (Swyddfa Archwilio Cymru)<br>Huw Vaughan Thomas (Archwilydd Cyffredinol Cymru) |

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 275KB) Gweld fel HTML (253KB).

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Maes Awyr Caerdydd: Llythyr oddi wrth Roger Lewis, Cadeirydd - Maes Awyr Caerdydd (26 Ionawr 2016)

## 3 Maes Awyr Caerdydd: Sesiwn Dystiolaeth 2

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Simon Jones o gwmni daliannol Llywodraeth Cymru (WGC Holdco), fel rhan o'r ymchwiliad i gamau Llywodraeth Cymru i gaffael Maes Awyr Caerdydd a'i pherchenogaeth ohono.

3.2 Cytunodd Simon Jones i anfon y wybodaeth a ganlyn i gynorthwyo ymchwiliad y Pwyllgor:

- A dderbyniodd BA unrhyw gymhelliant ariannol gan Lywodraeth Cymru i leoli ei gyfleusterau cynnal a chadw ym Maes Awyr Caerdydd;
- Data ar sut y mae teithwyr yn cyrraedd Maes Awyr Caerdydd;
- Gwerth presennol Maes Awyr Caerdydd; ac
- Enwau darparwyr y benthyciadau i'r meysydd awyr hynny y dywedwyd yn y sesiwn dystiolaeth eu bod wedi derbyn benthyciadau.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Maes Awyr Caerdydd: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.